**RHYBUDD o benderfyniadau cyfarfod hybrid Cyngor Sir Ynys Môn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni ar ddydd Mawrth, 9 Rhagfyr 2025**

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Glyn Haynes, Kenneth P Hughes, Robert Ll Jones, Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Dyfed Wyn Jones, Jackie Lewis, Pip O'Neill, Derek Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Alwen P Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams ac Arfon Wyn

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Carwyn Jones, John Ifan Jones, Euryn Morris, Llio Angharad Owen, Liz Wood

(2.00 o'r gloch yp – 3.35 o'r gloch yp)

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **1. Cofnodion** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gofnod cywir:-<br><br>• Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi, 2025<br>• Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar 28 Hydref, 2025. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **2. Datganiad o Ddiddordeb** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Dim i'w hadrodd. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4. Cyflwyno Deisebau** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | Dim i'w hadrodd. |

| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5. Cwestiynau a dderbyniwyd yn unol â Rheol 4.1.12.4 o'r Cyfansoddiad** |
|---|---|
| PENDERFYNIAD | **Yr Arweinydd i hysbysu'r Cyngor yn dilyn derbyn ymateb gan Lywodraeth Cymru i'r cais i ysgolion Ynys Môn gau am y gwyliau haf ar y dydd Gwener cyn y Sioe Frenhinol yn 2027.** |

| | |
|---|---|
| | |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6. Rhybudd o Gynnig** |
| PENDERFYNIAD | • **Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Jeff Evans**<br><br>**CYTUNWYD mewn egwyddor i gefnogi ymgyrch Marie Curie am eithriad llawn rhag talu'r Dreth Gyngor ar gyfer pobl â salwch terfynol yn ystod blwyddyn olaf eu bywydau.**<br><br>• **Cyflwynwyd y Rhybudd o Gynnig gan y Cynghorydd Jackie Lewis**<br><br>**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cynnig yn amodol ar yr ychwanegiad canlynol:-**<br><br>**Cydnabod y gwaith a wnaed gan Ms Gwen Parry Jones, cyn Brif Weithredwr Great British Nuclear, a'i hymdrechion i sicrhau bod Adweithyddion Modiwlar Bach yn cael eu lleoli ar Safle Wylfa a gwahodd Ms Gwen Parry Jones i gyfarfod o'r Cyngor Sir yn y dyfodol.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7. Diwygio'r Cyfansoddiad - Rhoi Cymeradwyaeth Derfynol i Gyfrifon Blynyddol y Cyngor** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD fod y Cyngor yn cymeradwyo'r newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn derfynol.** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8. Penodi Aelod Cyfetholedig Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau** |
| PENDERFYNIAD | **PENDERFYNWYD derbyn argymhellion Panel Dethol y Pwyllgor Safonau, sydd fel a ganlyn:-**<br><br>• **Penodi Mr David Davies yn aelod annibynnol cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau, gyda'i gyfnod yn y swydd yn dod i rym ar y 12fed o Ragfyr; 2025 a**<br>• **Petai sedd wag achlysurol am aelod** |

| | |
|---|---|
| | **annibynnol o'r Pwyllgor Safonau yn codi yn ystod y deuddeng mis nesaf, penodi Dr Margaret Flynn i'r rôl yn awtomatig heb orfod mynd trwy broses recriwtio arall, ar yr amod, wrth gwrs, bod yr ymgeisydd yn parhau'n gymwys ar gyfer y rôl, ac yn amodol ar dderbyn geirdaon boddhaol cyn ei phenodi.** |